OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 2825 (Cy.248)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *25 Hydref 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *26 Hydref 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 80(7) o Ddeddf Tai 2004(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Trwyddedu Dethol Tai (Amodau Ychwanegol) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 26 Hydref 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i dai ac anheddau(**2**) y mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn gymwys iddynt o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Tai 2004;

(b) ystyr “Deddf 1989” (“*the 1989 Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**3**); ac

(c) ystyr “Gorchymyn 2002” (“*the 2002 Order*”) yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002(**4**).

**Amodau Ychwanegol**

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), at ddibenion adran 80(2)(b) o'r Ddeddf mae naill ai'r amod cyntaf neu'r ail amod yn gymwys—

(a) yr amod cyntaf yw, naill ai bod

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddwyd gan adran 80(7) o'r Ddeddf yn arferadwy o ran Cymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o “the appropriate national authority” yn adran 261(1).

(**2**) Am ystyr “house” a “dwelling”, *gweler* adran 99 o'r Ddeddf.

(**3**) 1989 p.42.

(**4**) *Gweler*O.S. 2002/1860.

(i) awdurdod tai lleol wedi datgan ardal yn ardal adnewyddu o dan adran 89 o Ddeddf 1989; neu

(ii) awdurdod tai lleol wedi darparu cymorth i unrhyw berson yn unol â pholisi a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd o dan erthyglau 3 a 4 o Orchymyn 2002 yn yr ardal honno (pŵer awdurdodau tai lleol i ddarparu cymorth);

(b) yr ail amod yw bod ardal ei ddosbarth neu'r ardal yn ei ddosbarth yn cynnwys lleiafswm o 25% o'r stoc dai a osodir gan landlordiaid y sector preifat(**5**).

(2) Rhaid i awdurdod tai lleol fod yn fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau a osodir o dan is-baragraff (a) neu (b) o baragraff (1) wedi'u bodloni cyn dynodi ardal ei ddosbarth neu ardal yn ei ddosbarth yn ardal sy'n ddarostyngedig i drwyddedu dethol.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

25 Hydref 2006

(**5**) Nid yw "landlord sector cyhoeddus" yn cynnwys "landlord cymdeithasol cofrestredig" o fewn ystyr "registered social landlord" yn Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996 (p.52).

(**6**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 80 o Ddeddf Tai 2004 ("y Ddeddf") (Dynodi ardaloedd trwyddedu dethol) yn caniatáu i awdurdod tai lleol ddynodi naill ai ardal ei ddosbarth neu ardal yn ei ddosbarth yn ardal sy'n ddarostyngedig i drwyddedu dethol os bodlonir gofynion is-adrannau (2) a (9).

Mae adran 80, is-adran (7) o'r Ddeddf yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu, ar gyfer unrhyw amodau a bennir mewn gorchymyn, eu bod yn gymwys fel set ychwanegol o amodau at ddibenion is-adran (2). Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i'r awdurdod ystyried bod y set gyntaf o amodau cyffredinol neu'r ail set o amodau cyffredinol a grybwyllir yn is-adran (3) neu (6), neu unrhyw amodau a bennir mewn gorchymyn o dan is-adran (7) fel set ychwanegol o amodau yn cael eu bodloni o ran yr ardal.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gosod yr amodau ychwanegol y mae'n rhaid eu bodloni cyn i awdurdod tai lleol ddynodi ardal ei ddosbarth neu ardal yn ei ddosbarth yn ardal sy'n ddarostyngedig i drwyddedu dethol.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effaith a fydd gan y Gorchymyn hwn ar gael oddi wrth yr Uned Sector Preifat, yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (ffôn: 02920825111); e-bost: HousingIntranet@wales.gsi.gov.uk).